Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad:

# Dadansoddiad o ymatebion i'r ymgynghoriad ar drefniadau arolygu Estyn ar gyfer ysgolion ac UCDau o 2024

## Gorffennaf 2023

## Tabl Cynnwys

1. Cyflwyniad ..... 1
2. Methodoleg ..... 1
3. Proffil yr ymatebwyr ..... 1
4. Canlyniadau ..... 3
   4.1 Ymatebion i Gynigion ..... 3
   4.2 Goblygiadau ehangach y cynigion ac ystyriaethau eraill ..... 6
5. Y Camau Nesaf ..... 9

## 1. Cyflwyniad

Yn haf 2023, cynhaliom ymgynghoriad cyhoeddus ar ein trefniadau arolygu ar gyfer ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau). Roedd hyn i sicrhau bod barn rhanddeiliaid yn bwydo i sut rydym yn ymdrin ag arolygu o 2024 ymlaen.

## 2. Methodoleg

Roedd yr ymgynghoriad ar ffurf holiadur a oedd ar gael i'w lenwi naill ai ar-lein neu all-lein (dogfen PDF i'w llenwi a'i dychwelyd trwy'r e-bost neu'r post). Lansiom yr arolwg ar 25 Mai, a'i gau ar 26 Mehefin 2023. Cafodd yr holiadur ei hyrwyddo'n sylweddol yn Eisteddfod yr Urdd yn ystod wythnos 29 Mai – 2 Mehefin 2023. Rhannwyd cod QR ar gyfer yr holiadur gydag ymwelwyr â'n stondin.

Derbyniwyd ymatebion yn Gymraeg a Saesneg, fel ei gilydd. O blith y 460 o ymatebion a gafwyd fel cyfanswm, ni lenwodd rai ohonynt yr arolwg cyfan.

Cafodd yr ymatebion i'r cwestiynau testun rhydd eu grwpio'n themâu. Mae ymatebion cynrychioliadol wedi cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwn i gyfleu'r themâu allweddol sy'n gysylltiedig â phob cwestiwn. Roedd y rhain yn cynnwys cyfuniad o ddyfyniadau ac aralleiriadau uniongyrchol (lle crynhowyd elfennau o sawl ymateb). Dilynwyd Arweiniad Ysgrifennu Estyn wrth ddisgrifio cyfrannau'r ymatebion (e.e. mae 'ychydig' yn cyfateb i lai na 20% o ymatebwyr).


Roedd y gyfradd cwblhau'n llawn ar gyfer yr arolwg yn isel, gyda dim ond 33% o ymatebwyr yn rhoi atebion i'r holl gwestiynau. Efallai bod gan y rhai oedd wedi'u cymell i lenwi'r holiadur resymau penodol dros wneud hynny – o gymharu â'r rhai a roddodd ymateb rhannol. O ganlyniad, efallai nad yw'r dadansoddiad o'r ymatebion testun rhydd yn cynrychioli pob un o'r 460 o ymatebwyr.

## 3. Proffil yr ymatebwyr

Derbyniom gyfanswm o 460 o ymatebion i holiadur yr ymgynghoriad. Doedd rhai ymatebion ddim yn ymatebion llawn, felly ni ddarparodd rhai ymatebwyr eu gwybodaeth ddemograffig. Dyma oedd proffil ymatebwr y rhai a atebodd:

**Ffigur 1: Dewiswch un opsiwn isod sy'n disgrifio orau ym mha rinwedd rydych chi'n llenwi'r holiadur hwn.**


n = 460




Gofynnom i ymatebwyr pa sector yr oeddent yn ei gynrychioli.

**Ffigur 2: Pa sector ydych chi'n ei gynrychioli? Dewiswch yr holl opsiynau perthnasol.**

n = 501*





*Derbyniwyd 501 o ymatebion i gyd. Mae 20 unigolyn yn cynrychioli mwy nag 1 sector

# 4. Canlyniadau

## 4.1 Ymatebion i Gynigion

Yn gyntaf, gofynnom i ymatebwyr beth oedd eu barn ar y cynnig fod nifer y meysydd arolygu a ystyrir yn ystod arolygiadau yn cael ei newid o bump i dri.

**Ffigur 3: Rydym yn cynnig ein bod yn newid nifer y meysydd arolygu yr ydym yn eu hystyried yn ystod arolygiadau o bump i dri.**





*Derbyniwyd 213 o ymatebion i gyd (46% o'r holl ymatebwyr)

Roedd lefel gref o gymorth ar gyfer y cynnig hwn – gydag 89% o'r rhai a atebodd yn cytuno (naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno). Dim ond 3% o'r rhai a atebodd a oedd yn anghytuno â'r cynnig (naill ai'n anghytuno'n gryf neu'n anghytuno).

Er mai ychydig iawn ohonynt oedd o ran niferoedd (llai na 10% o'r holl ymatebwyr), roedd y 'thema' gryfaf yn yr ymatebion testun rhydd yn gysylltiedig â'r gorgyffwrdd a'r ailadrodd sy'n bodoli o fewn y system bresennol, a byddai symud hynny i dri maes wedi'u diffinio'n dda yn cael gwared ar lawer o'r gorgyffwrdd hwn, gan felly leihau maint dyblygu gwaith sy'n ofynnol gan bawb dan sylw.

Wedyn, gofynnon ni am y cynnig ein bod yn cynnal y cyfnod rhybudd deng niwrnod sydd gan ysgolion ac UCDau cyn arolygiad.

**Ffigur 4: Rydym yn cynnig ein bod yn cynnal y cyfnod rhybudd o ddeng niwrnod sydd gan ysgolion ac UCDau cyn arolygiad. Mae hyn yn rhoi digon o amser i ni ar gyfer holiaduron ac i'r ysgolion a'r UCDau lanlwytho dogfennau perthnasol, ac ati. Beth yw eich barn ar y cynnig hwn?**





*Derbyniwyd 211 o ymatebion i gyd (46% o'r holl ymatebwyr)

Roedd cefnogaeth i'r cynnig hwn – gyda 72% o'r rhai a atebodd yn cytuno (naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno). Roedd 27% o'r rhai a atebodd yn anghytuno â'r cynnig (naill ai'n anghytuno'n gryf neu'n anghytuno).

Rhoddodd lleiafrif o ymatebwyr sylwadau ychwanegol (21%). Roedd amrywiaeth o farn ynglŷn â pha mor hir ddylai'r cyfnod rhybudd fod, gyda rhaniad tair ffordd cymharol gyfartal rhwng y rhai sy'n cytuno â'r cyfnod rhybudd o ddeng niwrnod (39%); y rhai sydd eisiau gweld cyfnod hirach (25%); a'r rhai a oedd o'r farn y dylai'r cyfnod fod yn fyrrach / dim cyfnod rhybudd o gwbl (36%). Roedd yr ymatebwyr hynny a oedd yn cefnogi'r cyfnod rhybudd presennol o ddeng niwrnod o'r farn mai dyma oedd y cydbwysedd cywir – rhoi 'digon o amser' i baratoi, heb ddod yn rhywbeth sy'n 'effeithio' ac yn 'tarfu' ar y swydd ddyddiol. Ychydig iawn o unigolion a ddywedodd na ddylid cael unrhyw gyfnod rhybudd o gwbl – ac y byddai hyn yn rhoi darlun mwy gonest o lawer o'r sefyllfa mewn ysgolion. Dywedodd pobl eraill, nifer fach iawn eto, fod y cyfnod 10 diwrnod yn creu baich gwaith enfawr a gormod o bwysau ar ysgolion a staff – dadleuon nhw y byddai cynyddu'r cyfnod rhybudd o 15 i 20 diwrnod yn galluogi staff i baratoi'n drylwyr heb y lefel ormesol o bwysau sy'n gysylltiedig â'r cyfnod rhybudd presennol o 10 diwrnod.

Cafwyd ymatebion cymysg i'r cynnig i ymgysylltu'n amlach ag ysgolion ac UCDau gyda gweithgarwch arolygu.

**Ffigur 5: Rydym yn cynnig ein bod yn ymgysylltu'n amlach ag ysgolion ac UCDau gyda gweithgarwch arolygu. Beth yw eich barn ar y cynnig hwn?**




*Derbyniwyd 209 o ymatebion i gyd (46% o'r holl ymatebwyr)


O'r rhai a atebodd, roedd cefnogaeth gref i'r cynnig hwn – gyda 56% o'r rhai a atebodd yn cytuno (naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno). Roedd 29% o'r rhai a atebodd yn anghytuno â'r cynnig (naill ai'n anghytuno'n gryf neu'n anghytuno).

Rhoddodd lleiafrif o ymatebwyr (24%) sylwadau ychwanegol. Y 'thema' fwyaf poblogaidd (er mai ychydig iawn o ymatebwyr a soniodd am hyn) oedd rhybudd am lefelau'r 'straen' a'r 'baich gwaith' yn gysylltiedig â gweithgareddau arolygu ac y byddai mwy o weithgarwch yn debygol o arwain at effaith negyddol ar 'forâl staff a disgyblion', ac yn cael 'effaith sy'n gwaethygu ar yr argyfwng cadw gwael sydd gennym yng Nghymru eisoes'.

Roedd nifer fach iawn o ymatebwyr wedi mynegi'r pryder canlynol: mae 'ofn parhaus o gael eu harolygu' eisoes yn cael ei weld fel rhywbeth sy'n cael effaith negyddol ar ysgolion, ac mae rhai ohonynt yn gweld y broses fel 'ymarfer ticio blychau sy'n tarfu ac yn llafurus'.

Roedd ychydig o ymatebion yn gysylltiedig â sut mae Estyn yn gwneud ei waith: Pe bai'r gweithgarwch arolygu cynyddol yn cael ei wneud mewn modd mwy 'ymgynghorol', gydag Estyn yn cael ei weld fel 'cefnogwr a galluogwr' gwelliannau mewn ysgolion trwy 'ddeialog broffesiynol', yna byddai llawer o unigolion yn gefnogol i weithgarwch arolygu cynyddol. Gallai rhyngweithio amlach arwain at ddarlun 'tecach a mwy cyflawn' o berfformiad ysgolion, o gymharu â'r 'ciplun presennol – nad yw rhai rhieni ac athrawon yn gallu cyfranogi ynddo oherwydd y cyfnod 6 blynedd'. Awgrymodd rhai o'r ymatebwyr fod angen i'r gweithgarwch arolygu fod yn fwy o 'bartneriaeth' a 'thrafodaeth' rhwng yr ysgolion ac Estyn, yn hytrach na'r system bresennol – sy'n teimlo fel be bai'n ceisio 'dal ysgolion yn gwneud camgymeriad'.

**Ffigur 6: Rydym yn cynnig ymweld â phob ysgol annibynnol o leiaf ddwywaith yn ystod cylch arolygu. Byddai un o'r ymweliadau hyn yn arolygiad craidd a byddai'r llall yn ymweliad sy'n canolbwyntio ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru). Beth yw eich barn ar y cynnig hwn?**




* Derbyniwyd 207 o ymatebion i gyd (46% o'r holl ymatebwyr)

Roedd dros draean o'r rhai a ymatebodd yn 'Ansicr / dim barn'. Ychydig iawn yn unig (11) o'r rhai a ymatebodd sy'n gweithio yn y sector annibynnol ar hyn o bryd. O'r rhai sy'n gweithio yn y sector annibynnol ar hyn o bryd, roedd 64% yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r cynnig hwn.

O'r rhai a atebodd a nodi barn, roedd cefnogaeth i'r cynnig hwn – gyda thros dri chwarter o'r rhai a atebodd, a nodi barn, yn cytuno (naill ai'n cytuno'n gryf neu'n cytuno). Roedd ychydig llai nag un o bob pump o'r rhai a atebodd, ac a nododd farn, yn anghytuno â'r cynnig (naill ai'n anghytuno'n gryf neu'n anghytuno).

Roedd y rhai a gefnogodd y cynnig yn gwneud hynny ar y sail y byddai ymweliadau amlach yn 'ymdriniaeth ysgafn' a 'chefnogol' – byddai unrhyw beth yn fwy yn arwain at 'ormod o waith ychwanegol' – derbyniwyd ychydig iawn o sylwadau.

Ychydig iawn o ymatebwyr a oedd o'r farn y byddai dau ymweliad fesul pob cylch arolygu yn 'ormodol' a 'diangen'.

### 4.2 Goblygiadau ehangach y cynigion ac ystyriaethau eraill

#### 4.2.1 Gofynnom i ymatebwyr sut dylem ni gynnwys rhieni, gofalwyr, plant a phobl ifanc yn y trefniadau arolygu newydd, o 2024 ymlaen?

**Yr ymateb mwyaf cyffredin i'r cwestiwn hwn oedd parhau i ofyn am farn - 'yn enwedig y tu allan i ffenestr ymweld reolaidd ysgol'. Yr ymateb mwyaf poblogaidd, er gan lai na 10% o'r holl ymatebwyr, oedd y farn y byddai holiadur neu rywbeth tebyg yn helpu cofnodi'r 'ymdeimlad' cyffredinol ym mhob ysgol. Hefyd, roedd cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn ffordd werthfawr o gasglu barn.**

Gwelwyd bod rhannu gwybodaeth o ymweliadau ac adroddiadau, ar ffurf adroddiadau ar-lein (fersiynau symlach os oes angen), yn ffordd hanfodol o hysbysu pobl ynglŷn â sut mae ysgolion yn perfformio, ond hefyd, sut mae Estyn yn gweithio gydag ysgolion i wella perfformiad.

Roedd rhai pryderon (nifer fach iawn o sylwadau) mai ‘nad y rhai sydd uchaf eu cloch yw’r meincnod gorau i gael barn y mwyafrif bob amser’.

### 4.2.2 Gofynnom i ymatebwyr pa wybodaeth fyddai’n fuddiol ei chynnwys mewn adroddiad arolygu?

Eto, derbyniwyd sylwadau gan leiafrif yn unig o’r holl ymatebwyr. Roedd rhai a gyflwynodd sylwadau o’r farn fod yr adroddiadau presennol yn darparu sylfaen dda i wella ohoni. Fodd bynnag, nododd ymatebwyr fod angen i adroddiadau fod yn fwy ‘cryno’ a ‘grymus’ – mae’r rhain gyfwerth â nifer fach iawn o boblogaeth gyfan yr ymatebwyr. Eto, ychydig iawn o sylwadau a dderbyniwyd a oedd yn datgan bod yr adroddiadau yn ‘iaith Estyn’ ac nid mewn ‘iaith bob dydd’ (derbyniwyd y sylw hwn yn yr adborth Cymraeg a Saesneg, fel ei gilydd).

Yn ogystal ag argymhellion ynglŷn â’r hyn y mae angen i’r ysgol ganolbwyntio arno er mwyn gwella, dylid cynnwys gwybodaeth am yr ‘agweddau cadarnhaol’ ar yr ysgol hefyd. Weithiau, gall yr adroddiadau fod yn rhy feirniadol – byddai rhai ‘pwyntiau uchel’ yn ychwanegu cyd-destun ac arfer gadarnhaol, sydd eu hangen yn fawr. Gallai gwybodaeth am y ‘gwelliannau a wnaed eisoes’ (ers yr adroddiad diwethaf) helpu dangos bod y broses arolygu yn gweithio ac yn anelu at gyflawni gwelliannau, ac ‘yn eu cyflawni, mewn gwirionedd’.

Mwy o ffocws ar ‘hapusrwydd / boddhad staff a disgyblion’. I rai, mae ychydig iawn o’r rhain yr un mor bwysig, os nad yn bwysicach, na rhai o’r metrigau mwy ‘addysgol’.

### 4.2.3 Gofynnom i ymatebwyr pa ddulliau eraill y dylem ni eu defnyddio i roi adborth am negeseuon o adroddiad arolygu i wahanol gynulleidfaoedd?

Ychydig iawn o sylwadau a dderbyniwyd, ond yr ymatebion mwyaf poblogaidd oedd bod yr adroddiadau presennol eu hunain, ar y cyfan, yn ffordd dda o gyfleu gwybodaeth, ond eu bod:

- Yn aml yn rhy eiriog
- Wedi’u hysgrifennu mewn iaith ffurfiol iawn (yn Gymraeg ac yn Saesneg, fel ei gilydd)
- Yn aml yn rhy hir ar gyfer cynulleidfaoedd penodol (e.e. ni fydd rhiant, yn gyffredinol, eisiau darllen adroddiad i’r un lefel o fanylder â phennaeth, dyweder)

Gellid gwella / moderneiddio dulliau dosbarthu i gynnwys:

- Cyfryngau Cymdeithasol (Facebook, Twitter, ac ati)
- Codau QR
- Dolenni mewn negeseuon e-bost at fersiynau o adroddiadau sy’n benodol i gynulleidfa

### 4.2.4 Gofynnom i ymatebwyr feddwl am ffyrdd newydd o rannu arfer effeithiol a welwyd yn ystod arolygiadau, sy'n annog dysgu oddi wrth ei gilydd.

'Pwynt canolog i gael mynediad at yr holl wybodaeth ohono' oedd yr ymateb mwyaf poblogaidd, er bod llai na 10% o'r holl ymatebwyr wedi sôn am hyn. Awgrymodd nifer fach o ymatebwyr y dylid defnyddio HWB i storio amrywiaeth o ddeunyddiau sy'n dogfennu ac yn arddangos enghreifftiau o arfer orau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Adroddiadau sy'n cynnwys manylion am 'sut beth yw da' yn seiliedig ar berfformiad ysgolion â chyflawniad uchel
- Astudiaethau achos arfer dda
- Fideos a chanllawiau mewn fformatau eraill 'nad ydynt yn safonol / nad ydynt yn nodweddiadol', h.y. nid adroddiadau ysgrifenedig
- Dolenni at gynnwys defnyddiol ar y cyfryngau cymdeithasol

Ychydig iawn o ymatebwyr a soniodd y byddai rhannu gwybodaeth rhwng ysgolion trwy 'gynadleddau' (wyneb yn wyneb ac ar-lein, fel ei gilydd) a dulliau eraill llai ffurfiol, e.e. y gallu i 'sgwrsio i drafod problemau / atebion' yn ddefnyddiol (eto, wyneb yn wyneb ac ar-lein, fel ei gilydd).

### 4.2.5 Gofynnom i ymatebwyr am adborth ar unrhyw agweddau eraill ar drefniadau arolygu Estyn.

Roedd yna gymysgedd o ymatebion: nifer fach iawn o ymatebion, yn gallu gweld manteision y broses ond gan deimlo nad oedd 'na gysondeb a thryloywder' ac eto nifer fach iawn yn gweld unrhyw ryngweithio gydag Estyn yn 'straen'.

Nododd ymatebion eraill a dderbyniwyd (niferoedd eithriadol o fach) fod crybwyll Estyn yn achosi 'ofn a braw' ac 'y dylem ni i gyd fod yn gweithio gyda'n gilydd i wella addysg' ac na ddylai fod yn ymagwedd 'ni a nhw'.

Cydnabu ymatebwyr fod angen proses arolygu ond roeddent yn teimlo nad yw'r trefniadau presennol yn adeiladol nac yn briodol – bach iawn o ran nifer y sylwadau. Mae angen mwy o 'gydweithio a deialog', yn ogystal â mwy o 'empathi' i amgylchiadau unigol pob ysgol.

Cafwyd rhai sylwadau cadarnhaol, er enghraifft, 'Roedd y broses arolygu ddiwethaf yr aethom ni drwyddi mor wahanol mewn ffordd gadarnhaol nag o'r blaen. [Roedd] llawer mwy o ddeialog a phroses a oedd yn chwilio am yr elfennau cadarnhaol.'

### 4.2.6 Gofynnom i ymatebwyr am eu barn ar yr effeithiau y byddai'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn eu cael ar y Gymraeg.

Y consensws, ar sail yr ymatebion a dderbyniwyd, oedd na ddylai'r cynigion gael effaith negyddol ar y Gymraeg.

Roedd llond llaw o sylwadau mwy cyffredinol am y Gymraeg yng nghyd-destun Addysg yng Nghymru; a rhai ohonynt yn cefnogi'r ymagwedd bresennol:

- 'Dylai'r broses arolygu weithio'n gyfartal, yn Gymraeg ac yn Saesneg, fel ei gilydd'

- ‘Yn Gymraeg iaith gyntaf…rhoddir ystyriaeth gyfartal i’r ddwy iaith eisoes, pan fyddwn ni’n cael ein harolygu.’

Amlygwyd pryderon ynglŷn â’r gallu i ddarparu addysg yn Gymraeg:

- ‘Mae recriwtio a chadw athrawon o safon dda / neu unrhyw athrawon Cymraeg yn y sector uwchradd mor heriol, fel ei bod yn annheg barnu ysgolion pan mae mor anodd gwella.’

**4.2.7 Gofynnom i ymatebwyr am eu barn ar yr effeithiau y byddai’r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn eu cael ar faterion cydraddoldeb, gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthnasoedd da rhwng gwahanol bobl.**

Pan dderbyniwyd ymatebion, ac aethpwyd i’r afael â’r cwestiwn, (niferoedd isel), roedd cytundeb na fyddai’r newidiadau arfaethedig yn cael effaith negyddol ar faterion cydraddoldeb, gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthnasoedd da rhwng gwahanol bobl.

## 5. Y Camau Nesaf

Bydd canfyddiadau’r ymgynghoriad yn helpu llywio’r trefniadau arolygu newydd ar gyfer ysgolion ac UCDau o 2024 ymlaen.